

## Datganiad o Gefnogaeth gan arweinwyr Sefydliadau Mwslimaidd o blaid Diwygio'r Gyfraith er mwyn Dileu Cosb Gorfforol i Blant

Mae Islam o'r farn bod pob bywyd dynol yn rhodd sanctaidd gan Dduw. Nid yw Islam yn argymhell unrhyw drais yn erbyn plant. Mae cosb gorfforol a dulliau eraill sarhaus o drin plant yn gwbl groes i gyngor y Proffwyd.

Rydym yn cadarnhau ein parch at urddas dynol pob plentyn. Mae hyn yn ein galw i gydweithio er mwyn gwrthwynebu'r poen a'r sarhad y mae plant yn eu hwynebu yn sgîl cosb gorfforol mewn cartrefi a theuluoedd, ysgolion, sefydliadau crefyddol a lleoliadau cymunedol eraill.

Rydym ar gael i roi ein ffydd ar waith ac i godi llais ar ran pob plentyn sydd yn goddef cosb gorfforol. Ni ellir cyfiawnhau'r arfer niweidiol, sarhaus hwn o dan unrhyw amgylchiadau yn enw crefydd, dan fantell disgyblaeth na thrwy destunau sanctaidd a hanfodion ein ffydd.

Rydym yn ymroddedig i dderbyn arweiniad a gweithio ar y cyd â phobl o sectorau, cymunedau a rhwydweithiau crefyddol eraill gyda'r nod o ddileu pob cosb gorfforol i blant. Mae rhoi amddiffyniad cyfartal i blant rhag ymosodiad yn hanfodol, gan ei fod yn dweud cymaint am y math o gymdeithas rydym am ei sicrhau i bob plentyn.

Bydd dileu cosb gorfforol fel arfer cyffredin yn arwydd o'r ystyriaeth ddifrifol rydym yn ei rhoi i hawliau dynol pob plentyn i dyfu i fyny heb ofni cael eu taro a'u sarhau gan y rhai y mae dyletswydd arnynt i amddiffyn plant rhag niwed. Nid rheidrwydd moesol yn unig yw hyn, mae'n golygu rhoi i blant y parch y mae hawl ganddynt i'w dderbyn.

Ystyr disgyblaeth yw addysgu a thywys plant trwy esiampl oedolion – nid trwy daro plant ac achosi poen. Mae'n bwysig bod diwygio'r gyfraith yn mynd law yn llaw ag addysg gyhoeddus helaeth, er mwyn hybu disgyblaeth gadarnhaol, ddi-drais a mynediad at adnoddau a chefnogaeth i rieni.

Mae hwn yn gyfle i'n gwerthoedd a'n gobeithion ar gyfer ein plant a'n teuluoedd ddylanwadu ar ein cyfreithiau a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Os ydym yn wir am weld cymdeithas lai treisgar a heddwch yn ein byd, rhaid i ni ddod â chyfreithlondeb cosb gorfforol i ben, a thrin ein plant â thyrerwch, cariad, cydymdeimlad a pharch.

### *Llofnodwyd:*

Mualana Shahid Raza OBE: *Cyfarwyddwr Cyngor Imamau a Mosgau y Deyrnas Unedig*

*Llywydd Cenhadaeth Islamaidd y Byd, Rhanbarth Ewrop*

*Prif Imam Mosg Canolog Leicester, Ymddiriedolwr Sefydlu Fforwm Mwslimiaid Prydain, Ysgrifennydd Gweithredol a Chofrestrydd Cyngor Gyfraith Fwslimaidd (Shariah) y Deyrnas Unedig*

*Pennaeth yr Adran Hyfforddi Imamau, Y Coleg Mwslimaidd, Llundain*

*Ms Faeza Vaid: Rhwydwaith Menywod Mwslimaidd y Deyrnas Unedig*

*Dr Ghayasuddin Siddiqui: Y Sefydliad Mwslimaidd, Llundain*